Llythrennedd

Bydd llywodraethwyr ysgol eisoes yn ymwybodol y nodwyd Llythrennedd fel un o'r tair blaenoriaeth genedlaethol (ynghyd â Rhifedd a goresgyn anfantais). Mae hyn yn dilyn perfformiad gwael Cymru yn rhaglen PISA*, y cyhoeddwyd adroddiad arni ym mis Rhagfyr 2010, a'r Gweinidog yn cyhoeddi cynllun gweithredu 20 pwynt ym mis Chwefror 2011 i fynd i'r afael â than gyrhaeddiad, yn enwedig mewn llythrennedd. Ymhlith ystod o fesurau, ym mis Mai 2012, gofynnwyd i bob ysgol yng Nghymru, ar sail wirfoddol i gychwyn, i fesur cyrhaeddiad darllen pob disgybl ym Mlynyddoedd 2 i 8 yn gynwysedig, gan ddefnyddio profion darllen safonedig. O fis Mai 2013, bydd profion darllen ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 2 i 9 yn dod yn brofion statudol. Ni fydd hyn yn golygu unrhyw newidiadau sylweddol i ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych, gan ein bod wedi bod yn defnyddio prawf darllen safonedig am y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, bydd cyflwyno profion darllen ar gyfer ysgolion uwchradd yn ddatblygiad newydd.

Hefyd, er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb Asesiadau Athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol, yn yr haf 2012, bydd yn ofynnol i bob clwstwr o ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru gyflwyno samplau o asesiadau ar gyfer Saesneg a naill ai Cymraeg iaith gyntaf neu Gymraeg ail iaith ar gyfer safoni allanol cenedlaethol.

Yn y Fframwaith Arolygu newydd (2010), mae safon llythrennedd yn 'drywydd ymholi' y mae'n rhaid adrodd arno, ym mhob arolygiad. Ym mis Medi 2011, cyhoeddodd ESTYN arweiniad manylach ar sut yn union y bydd llythrennedd yn cael ei arolygu mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Cyn pob arolygiad, caiff llythrennedd ei nodi fel 'prif' drywydd ymholi (Coch) neu drywydd ymholi 'safonol' (Gwyrdd) ar sail dadansoddiad o ddata'r ysgol. Mae'r arweiniad yn amlinellu:

- beth ddylai arolygwyr ei archwilio mewn 'prif' drywydd ymholi a thrywydd ymholi 'safonol';
- beth fyddai arolygwyr yn disgwyl ei weld mewn gwaith dysgwyr;
- beth ddylai arolygwyr ei archwilio mewn trafodaethau gyda dysgwyr;
- beth fyddai arolygwyr yn disgwyl ei weld yn yr amgylchedd dysgu; a
- strategaethau addysgu a dysgu effeithiol ar gyfer llythrennedd

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, a fydd ar gael i'w ddefnyddio'n wirfoddol o fis Medi 2012, ac a fydd yn dod yn statudol o 2013. Mae'r Fframwaith hwn i fod yn adnodd trawsgwricwlaidd a fydd yn pennu lefelau disgwyliedig ar draws ystod o feysydd sgiliau llythrennedd, hyd at a chan gynnwys Blwyddyn 9.

**Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr*
http://www.nfer.ac.uk/nfer/publications/NPDZ02/NPDZ02.pdf

Denbighshire Governors' Support – Bulletin 23

Literacy

School governors will already be aware that Literacy has been identified as one of three national priorities (along with Numeracy and overcoming disadvantage). This follows Wales' poor performance in the PISA* programme, reported in December 2010, and the Minister's announcement in February 2011 of a 20- point action plan to address under-attainment, especially in literacy. Amongst a range of measures, in May 2012, all schools in Wales have been asked, initially on a voluntary basis, to measure the attainment in reading of all pupils in Years 2 to 8 inclusive, using standardised reading tests. From May 2013, testing of reading for all pupils in Years 2 to 9 inclusive will become statutory. This will not mean significant changes for primary schools in Denbighshire, where we have used a standardised reading test for the past four years. However, the introduction of reading tests for secondary schools will be a new development.

Also, to ensure the accuracy and consistency of end of key stage Teacher Assessment, in summer 2012, all clusters of primary and secondary schools in Wales will be required to submit samples of assessment for English and either Welsh 1st or Welsh 2nd language for national external moderation.

In the new (2010) Inspection framework, the standard of literacy is a 'line of enquiry' which must be reported on, in all Inspections. In September 2011, ESTYN published more detailed guidance about exactly how literacy will be inspected in both primary and secondary schools. Before each inspection, literacy will be identified as being a 'major' (Red) or 'standard' (Green) line of enquiry based on analysis of school data. The guidance outlines:

- what inspectors should examine in both 'major' and 'standard' lines of enquiry;
- what inspectors would expect to see in learners' work;
- what inspectors should explore in discussions with learners;
- what inspectors would expect to see in the learning environment; and
- effective teaching and learning strategies for literacy

The Welsh Government is also developing a National Literacy and Numeracy Framework, which will be available for use on a voluntary basis from September 2012 and will become statutory from 2013. This Framework is intended to be a cross-curriculum resource that will specify expected levels across a range of literacy skill areas, up to and including Year 9.

**Programme for International Student Assessment*
http://www.nfer.ac.uk/nfer/publications/NPDZ02/NPDZ02.pdf